CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

ASESIAD RISG SYDD EISOES YN WEITHREDOL GAN Y CYNGOR

1. Cyllid y Cyngor

Y Praesept – ystyried y gofynion am y flwyddyn ariannol ddilynol er sicrhau fod digon y gyllid ar gael i dalu am farbio tiroedd y Cyngor, cyfraniadau ariannol o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol, hysbysebu fel bo'r angen, cyflog a chostau'r Clarc a sicrhau fod cyllid wrth gefn petai'r gofyn yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyfraniadau o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol – atgoffa'r aelodau o'u hawliau i gyfrannu ac os oes amheuaeth yna cysylltu â Un Llais Cymru er derbyn eu sylwadau a'u harweiniad. Sicrhau hefyd na fydd gwariant mwy nag a ganiateir o dan yr Adran yn digwydd.

Arwyddo sieciau – sicrhau fod y Cyngor yn rhoi awdurdod i dalu pob archeb a dderbynir, neu yn ystod mis Awst fod y Cadeirydd yn awdurdodi'r taliad ond i adrodd yn ôl ym mis Medi i'r Cyngor llawn. Sicrhau fod y Clarc a dau aelod o'r Cyngor yn arwyddo pob siec a basiwyd i dalu'r archeb amdano ac yn rhoddi eu 'initials' ar y bonyn i gadarnhau'r taliad. O berthynas i daliad i'r Clarc fod tri aelod (ac nid y Clarc) yn arwyddo'r siec(iau) hynny ac yn rhoddi eu 'initials' ar y bonyn unwaith yn rhagor.

Amcangyfrif – fod y Clarc yn cyflwyno i'r Cyngor dair gwaith y flwyddyn gyfrif o'r hyn a wariwyd a'r hyn a fydd yn rhagweld fydd ei angen hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Diwedd y flwyddyn ariannol – fod y Clarc i gyflwyno adroddiad o'r sefyllfa ariannol i'r Cyngor yn dangos yn union beth a dalwyd a beth a wariwyd yn ystod y flwyddyn. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r fantolen neu ei chywiro fel bo'r angen.

Ad-hawlio TAW – cwblhau ffurflen i ad-hawlio TAW os yw'r swm yn cyfiawnhau hynny neu ei adael am flwyddyn arall i'w hawlio.

2. Yswiriant

Rhaid sicrhau fod yswiriant priodol gan y Cyngor ar gyfer holl eiddo'r Cyngor, y cyhoedd, aelodau'r Cyngor a'r staff.

3. Gwahodd Tendrau

Rhaid gwahodd tendrau am unrhyw waith a ymgymerir gan y Cyngor a sicrhau fod y geiriad 'TENDR' i fod ar bob ymgais a dderbynir gan Ymgymerwyr. Ni fydd yr amlen gyda'r gair 'TENDR' yn cael ei hagor hyd nes bydd yr eitem yn cael ei hystyried gan y Cyngor.
Ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf ond rhaid cofnodi y rhesyma am wrthod y tendr isaf. Mae'n ofynnol fod gan yr Ymgymerwr bolisi yswiriant cyfredol ar gyfer y gwaith a rhaid cael copi o'r cyfryw ar y ffeil.

4. Archwilio eiddo'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn penodi un aelod i wneud arolwg o holl eiddo'r Cyngor bob chwe mis a bydd cofnod ysgrifenedig o bob archwiliad yn cael ei drosglwyddo i'r Clarc.
Llwybrau cyhoeddus – cyfrifoldeb aelodau pob Ward fydd gwneud arolwg o'r llwybrau sydd angen sylw ac adrodd i'r Cyngor.

Mabwysiadwyd yr uchod yng nghyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd 9fed Mawrth, 2020, ynghyd a'r Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Cyllidol a thabl o asesiad risg.
Nodwyd ymhellach fod Y Cynghorydd Glyn Roberts wedi ei benodi i wneud archwiliadau o eiddo'r Cyngor yn unol a rheol 4 uchod.

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

9fed Mawrth, 2020.